O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 679 (Cy. 171)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yng Nglyndyfrdwy, Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 146 o fetrau i'r gorllewin hyd at bwynt 427 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sydd ag arwydd ar gyfer Rhewl a'r darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 390 o fetrau i'r dwyrain hyd at bwynt 700 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).